No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson a E. Williams.

## C895 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## C896 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

## C897 DATGANIADAU BUDDIANT –

| Enw'r Cynghorydd | Natur y Buddiant |
|---|---|
| Y Cynghorydd B. T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) | Roedd a wnelo'r buddiant ag Eitem 13 ar yr Agenda - Cynnig i Ailgyflunio Darpariaeth Feithrin ym Mhenarth Datganodd y Cynghorydd Gray fuddiant fel Llywodraethwr yr AALI, ond cafodd ganiatâd y Pwyllgor Safonau i siarad, pleidleisio a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â'r mater. |
| Y Cynghorydd K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant) | Roedd a wnelo'r buddiant ag Eitem 13 ar yr Agenda - Cynnig i Ailgyflunio Darpariaeth Feithrin ym Mhenarth Datganodd y Cynghorydd McCaffer fuddiant fel Llywodraethwr yr AALI, ond cafodd ganiatâd y Pwyllgor Safonau |

| | |
|---|---|
| | i siarad, pleidleisio a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â'r mater. |

**C898 CYNLLUNIAU GWASANAETH A PHENNU TARGEDAU I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) -**

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 17 Mawrth, 2022.

Yn ogystal â chefnogi'r Cynlluniau a'r Targedau Gwasanaeth, roedd y Pwyllgor wedi argymell y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgorau Craffu, y Cyngor llawn a'r Cabinet dderbyn cyflwyniad neu gynyddu eu dealltwriaeth o'r testun mewn rhyw ffordd arall. Cytunodd yr Arweinydd y byddai hyn yn eithriadol o ddefnyddiol oherwydd cymhlethdod y testun, yn enwedig wrth i'r garfan newydd o Gynghorwyr gyrraedd ar ôl yr etholiadau lleol. Yr enghraifft a roddwyd oedd y defnydd o seminarau Rheoli Trysorlys a gynhaliwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn eu cyfarfod. Awgrymodd yr Arweinydd y byddai'n fwy priodol gwneud hyn ar ffurf cyflwyniad neu seminar na model gorchwyl a gorffen, fel bod yr holl Aelodau etholedig yn ymwybodol o'r gwaith sydd ei angen yn y maes hwn, ac er mwyn i Swyddogion y Cyngor gael bwrw ymlaen â hyn ar ôl yr etholiadau lleol.

Ar ôl ystyried y mater a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD – nodi'r sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
ar 17 Mawrth 2022, ac y dylai Swyddogion y Cyngor fwrw ymlaen â'r argymhelliad y dylai'r Pwyllgorau Craffu, y Cyngor llawn a'r Cabinet dderbyn cyflwyniad ar Gynlluniau Gwasanaeth a Gosod Targedau er mwyn cael dealltwriaeth well o'r testun a sicrhau bod y drafodaeth a gwaith craffu ar hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth lawn.

<u>Rhesymau dros y penderfyniad</u>

Yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C899 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL – 10 IONAWR, 2022 –**

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2022, fel yr oeddent wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cadeirydd y Panel, at y prif themâu a oedd yn codi o gyfarfod y Panel, fel y cyflwyniad rhagorol a'r drafodaeth am y prif egwyddorion yr oedd y Panel am sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu'n gysylltiedig â'r modd yr oedd y Cyngor yn helpu'r bobl ifanc hynny a oedd mewn gofal ac yn gadael gofal a allai ddod yn rhieni eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau nad oedd 'stigma' ar y bobl ifanc hynny, a'r angen i osgoi'r rhagdybiaeth y byddai eu plant hwythau hefyd yn cael eu derbyn i ofal. Roedd y

Panel wedi cymeradwyo y dylai'r Cyngor lofnodi'r Siarter Arfer Gorau / Da - Cymorth i Rieni Mewn Gofal ac sy'n Gadael Gofal. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Adduned 'Mae Fy Mhethau i'n Bwysig' gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, a drafodai'r pwys yr oedd pobl ifanc yn ei roi ar eitemau ac eiddo a oedd yn werthfawr iddynt, a'r angen i sicrhau bod y rhain yn cael eu trin â gofal a pharch pe bai'r bobl ifanc yn cael eu symud o ddarpariaeth frys, er enghraifft, i ofal maeth tymor hwy, er mwyn rhoi urddas iddynt wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hynny. Agwedd arall allweddol i'w hystyried oedd y gwaith yn gysylltiedig â'r rhai ar ffiniau gofal, gan nodi'r rhai a allai fod angen cymorth i sicrhau nad oeddent yn cael eu derbyn i ofal y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod y gwaith a gyflawnir i'r rhai hynny ar ffiniau gofal yn hollbwysig i'w hatal rhag 'disgyn' i mewn i ofal, a'r hyn a oedd yn allweddol oedd atal yn gynnar.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2022.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Nodi'r cofnodion

**C900 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL – 21 MAWRTH, 2022–**

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2022, fel yr oeddent wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cadeirydd y Panel, fod y cofnodion wedi cael eu cyflwyno gerbron y Cabinet ar y cyfle cyntaf er mwyn rhannu'r adolygiad o'r Panel Rhianta Corfforaethol a oedd wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod hwn. Roedd yr adolygiad yn manylu ar gyflawniadau'r Panel ers 2019, hy, bod yn 'ffrind beirniadol' a weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol er mwyn dod â'u profiadau gweithredol ynghyd, yn ogystal â'r hyn yr oedd angen ei wneud er mwyn cynnal momentwm gwaith y Panel yn sgil newidiadau posibl, ayyb, oherwydd yr etholiadau lleol.

Dymunai'r Arweinydd ddiolch i holl aelodau'r Panel (a oedd yn cynnwys tri aelod o'r Cabinet a swyddogion Cyngor o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Tai, Adnoddau Dynol ac ati) am eu gwaith rhagorol yn y maes hwn, a adleisiwyd gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, ac am osod seiliau i drosglwyddo'n ddi-dor i aelodau newydd posibl a fyddai'n ymuno â'r Panel yn dilyn yr etholiad. Ailadroddodd yr Arweinydd hefyd fod yr holl aelodau, o gael eu hethol, yn dod yn rhieni corfforaethol, a bod hynny'n rhan bwysig o rôl cynghorydd.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion

**C901 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Rhoddodd yr Arweinydd amlinelliad o'r adroddiad perfformiad, a gyflwynai'r cynnydd a wnaed yn chwarter 3 (1 Ebrill hyd 31 Rhagfyr 2021) tuag at gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22) a oedd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol.

Bu cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22). Roedd y perfformiad wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn Chwarter 3 (Ch3).

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd yn Ch3 i bob un o 4 Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol, i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Mae hyn yn gadarnhaol ac ystyried yr heriau parhaus sydd wedi deillio o'r pandemig.

Dyfarnwyd statws perfformiad Gwyrdd i 91% (288 o 317) o’r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter, a statws ambr i 2% (8) a statws coch i 7% (21) o'r gweithgareddau cynlluniedig.

O'r 21 o gamau gweithredu y dyfarnwyd statws perfformiad coch iddynt yn ystod y chwarter, roedd 38% (8) yn deillio'n uniongyrchol o fesurau ailflaenoriaethu a weithredwyd mewn ymateb i effaith pandemig parhaus COVID-19. Mewn perthynas â'r meysydd hynny, roedd gwaith bellach yn ailgychwyn yn rhan o'n cynlluniau a'n strategaeth adfer, lle bo'n briodol. Roedd y newyddion diweddaraf am yr adferiad yn dilyn y Coronafeirws yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau perfformiad fesul chwarter i sicrhau bod yr aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith eu Pwyllgorau perthynol. O ran hyn, gofynnwyd i'r aelodau nodi'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r adferiad yn dilyn y Coronafeirws.

O'r 43 o fesurau perfformiad chwarterol sydd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant ein Cynllun Corfforaethol, adroddwyd data ar gyfer 41 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Dyfarnwyd Statws perfformiad Gwyrdd i 56% (23) o'r mesurau, statws ambr i 5% (2) a statws coch i 39% (16) ohonynt. Nid oedd data ar gael ar gyfer y 2 fesur chwarterol oherwydd mesurau ailflaenoriaethu a weithredwyd mewn ymateb i effaith pandemig parhaus COVID-19. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol i 107 o fesurau, gan gynnwys nifer o ddangosyddion blynyddol (89) a'r rhai a sefydlai berfformiad llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn (18).

O ran yr 16 o fesurau y dyfarnwyd statws perfformiad coch ar eu cyfer yn ystod y chwarter, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at y ffaith bod 25% (4) wedi methu'r targed.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno'n flaenorol gerbron pob un o'r pum Pwyllgor Craffu, a bod y Pwyllgor Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau wedi gwneud nifer o sylwadau ac argymhellion a oedd wedi'u hymgorffori yn y fersiwn ddiweddaraf hon o'r adroddiad. Nodwyd bod y Cabinet eisoes wedi ymdrin â'r rhain ar ôl i'r Pwyllgor gyfeirio'r adroddiad i sylw'r Cabinet yn flaenorol.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan o ran cyflawni blaenoriaethau allweddol ei fframwaith perfformiad, a dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio hefyd, er bod rhai mesurau perfformiad statws coch yn parhau, fod y darlun yn gadarnhaol er gwaethaf heriau COVID-19, a bod y Cyngor yn mynd i'r cyfeiriad iawn o ran ei berfformiad a chyflawni ei flaenoriaethau.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 sydd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol, fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau.

(2) Nodi safbwyntiau ac argymhellion yr holl Bwyllgorau Craffu mewn perthynas â chanlyniadau perfformiad Ch3, a chymeradwyo'r camau unioni a nodwyd yn sail i fynd i'r afael â meysydd lle ceir tanberfformio, ac i ymdrin â'r prif heriau a nodwyd.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy'r strategaeth adfer mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn rhoi darlun clir o'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22, sy'n anelu i newid bywydau dinasyddion Bro Morgannwg er gwell.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ein gofynion perfformiad, fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac i adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef ei fod yn gwneud y cyfraniad gorau posib tuag at gyflawni nodau llesiant Cymru.

(3) Sicrhau bod Aelodau'r Cabinet yn parhau i oruchwylio dros y materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgorau Craffu perthynol.

**C902 CYNLLUNIAU GWASANAETH A PHENNU TARGEDAU I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a ofynnai am gymeradwyaeth ar gyfer y camau â blaenoriaeth, fel y maent wedi'u hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth a thargedau gwella gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2022/23 a fyddai'n cyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Cynlluniau Gwasanaeth a thargedau gwella gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer 2022/23. Mae'r rhain yn nodi meysydd ffocws penodol yn gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23, fel y maent wedi'u halinio â Phedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol ac yng nghyd-destun Strategaeth Adfer y Cyngor. Byddai bwrw ymlaen â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol o gymorth i fodloni rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD).

Roedd yr holl Bwyllgorau Craffu wedi ystyried Cynlluniau Gwasanaeth a thargedau gwella gwasanaethau a oedd yn berthnasol i'w cylch gwaith yn ystod 8 Mawrth - 17 Mawrth, 2022 fel y prif ddogfennau ar gyfer monitro a mesur perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn eu herbyn, ac roedd pob Pwyllgor wedi cefnogi'r rhain. Ar sail barn ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu, gofynnwyd i'r Cabinet adolygu a chymeradwyo'r Cynlluniau Gwasanaeth a'r targedau gwella gwasanaethau ar gyfer 2022/23.

Byddai cymeradwyo’r cynlluniau gwasanaeth a’r targedau gwella gwasanaethau ar gyfer 2022/2023 ochr yn ochr â’r Cynllun Cyflawni Blynyddol a gymeradwywyd yn ddiweddar (28 Chwefror 2022, gweler cofnod C847), yn galluogi’r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol yn llawn, sef pennu a chyhoeddi ei Amcanion Llesiant ac amlinellu sut mae’n bwriadu cyflawni’r amcanion hynny yn ystod y flwyddyn. Byddai cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/2023 a gynhwysir yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, mewn Cynlluniau Gwasanaeth ac mewn targedau gwella gwasanaeth yn cael ei fonitro gydag adroddiadau bob chwarter yn unol â threfniadau monitro Perfformiad Corfforaethol, a byddai'n sail ar gyfer canfyddiadau'r Hunanasesiad Blynyddol.

Roedd y Cyngor llawn wedi cefnogi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ym mis Mawrth, felly gallai'r Cyngor bellach symud ymlaen â'r cynlluniau cyflawni gwasanaeth hefyd. Y rhain oedd 'blociau adeiladu' gwaith rheoli perfformiad y Cyngor, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau gwelliant a pherfformiad parhaus, ac y byddai'r monitro'n parhau.

Tynnodd yr Arweinydd sylw hefyd at nifer o ffactorau lliniarol a risgiau, a dywedodd y byddai blaenoriaethau gwasanaeth drafft ar gyfer y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn cael eu cyflwyno gerbron y Cabinet erbyn diwedd mis Mehefin yn unol â trefniadau dirprwyo'r cytundeb cydweithio, a bod sail resymegol i gyd-fynd â'r holl Dargedau Gwella Gwasanaeth, ynghyd ag asesiad cytbwys o berfformiad. Ar ben hynny, cafodd rhai rhwymedigaethau statudol eu hatal am gyfnod amhenodol ar ddiwedd 2019 pan oedd y pandemig yn ei anterth. Ond os nad

oedd y data meincnodi ar gael wrth osod y targedau hyn, roedd y targedau a gynigiwyd ar gyfer mesurau atebolrwydd cyhoeddus yn seiliedig ar dueddiadau a data perfformiad lleol, ac ar wybodaeth gwasanaethau am feysydd perfformiad eraill o fewn y Cyngor.  Dechreuodd Data Cymru hefyd y prosiect i ddatblygu cronfa ddata genedlaethol i lywio'r broses hunanasesu, a fyddai'n darparu swm sylweddol o ddata yr oedd eu hangen i asesu perfformiad yn effeithiol ar raddfa leol a chenedlaethol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod y rhain yn gynlluniau gwasanaeth uchelgeisiol a heriol, a oedd yn trafod themâu trawsbynciol allweddol, fel yr argyfwng hinsawdd.  Roedd trafodaethau helaeth iawn wedi'u cynnal ar y cynlluniau gwasanaeth hyn, gan gynnwys Aelodau Craffu a'r Cabinet.

Dymunai'r Arweinydd a'r Cabinet ddiolch i bawb am eu gwaith yn gysylltiedig â Chynlluniau Gwasanaeth a thargedau gwella gwasanaethau.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r Cynlluniau Gwasanaeth (a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad) a'r targedau gwella gwasanaethau cysylltiedig fel y prif ddogfennau a fyddai'n cael eu defnyddio i fonitro a mesur perfformiad yn eu herbyn ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23.

(2) Cymeradwyo'r targedau gwella gwasanaethau arfaethedig a oedd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Mesurau Perfformiad Corfforaethol ar gyfer 2022/23 ac a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad B yr adroddiad.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cynlluniau Gwasanaeth a'r targedau gwella cysylltiedig yn adlewyrchu'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/2023, ac y byddent yn galluogi'r Cyngor i ddangos cynnydd tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesurau Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn pennu cyfres berthnasol o fesurau a thargedau perfformiad y gellid monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2022/2023 yn unol â gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). 2015.

**C903 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Pwrpas yr adroddiad oedd hysbysu'r Cabinet ynghylch y Pwerau Argyfwng yr oedd y Prif Weithredwr wedi'u harfer ers yr adroddiad diwethaf ar 14 Chwefror 2022, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor ar dudalen 285 (pwerau dirprwyedig).

Eglurodd yr Arweinydd mai adroddiad rheolaidd oedd hwn yn manylu ar achosion lle defnyddiwyd Pwerau Argyfwng o'r fath, gan gynnwys:

- Prynu Offer TCC er mwyn uwchraddio a gwella'r system TCC sefydlog ar draws Bro Morgannwg.
- Archebu ystafelloedd mewn gwestai lleol mewn bloc ar gyfer pobl ddigartref yn ystod y pandemig.
- Gwelliannau Priffyrdd Gwasanaethau Cymdogaeth.
- Prynu cerbydau trydan (ULEV – Dyfarniad Grant Cerbydau Cyngor) yn rhan o'r ymdrechion i leihau ôl troed carbon y Cyngor.
- Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Ystâd Pen-llin.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod yr enghreifftiau uchod yn dangos pam bod a gen defnyddio pwerau o'r fath, a phwysigrwydd gweithredu'r rhain cyn gynted ag a oedd yn bosibl, ond gyda'r sicrwydd bod y Prif Weithredwr mewn cysylltiad â'r Aelod ac Aelodau eraill y Cabinet yn rhan o'r broses honno.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant at y defnydd o bwerau argyfwng yn gysylltiedig â Pharc Sgrialu'r Knap, Pafiliwn Belle Vue a Chae Parc Jenner a fyddai'n golygu y byddai'r rhain yn cael eu cwblhau mewn modd amserol, ac o fudd mawr i'r cymunedau lleol yn sgil hynny.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio at Brosiect y Bocs Bwyd Mawr fel enghraifft, a oedd hefyd wedi elwa ar y defnydd o Bwerau Argyfwng. Datblygwyd y prosiect gan ysgolion o fewn Bro Morgannwg yn gysylltiedig â darparu bwyd 'talu yn ôl eich gallu' a gwaith allgymorth fu o fudd arbennig i gymunedau lleol yn sgil y cynnydd mewn costau byw. Roedd y prosiect wedi cael ei fabwysiadu yn rhannau eraill o Dde Cymru fel Cwm Nedd yn sgil ei lwyddiant a'i effeithiolrwydd yn y Fro.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng gan y Prif Weithredwr.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu'r Cabinet.

**C904 CAMAU ANNERBYNIOL GAN DDINASYDDION A PHOLISÏAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Eglurodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer fersiynau cyfredol y Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion a Pholisi'r Cyfryngau Cymdeithasol, cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau a derbyn cymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet.

**Y Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion**

- Roedd y Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion (ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad) yn esbonio sut oedd y Cyngor yn ymdrin â'r rhai yr oedd eu gweithredoedd neu eu hymddygiad yn erbyn staff a chynghorwyr wedi'u hystyried yn annerbyniol.
- Roedd y term 'dinesydd' yn cynnwys unrhyw un a gysylltai â'r Cyngor neu a weithredai ar ran unigolyn arall wrth wneud hynny, unrhyw achwynwr, ac unrhyw un a ofynnai am wybodaeth gan y Cyngor.
- Roedd y polisi'n ehangu, yn disodli ac yn adeiladu ar Bolisi Cwynion Afresymol y Cyngor.
- Roedd y polisi'n cydnabod bod cyfleoedd i ryngweithio â'r Cyngor a'i swyddogion wedi lluosogi yn sgil poblogrwydd cynyddol llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd modd cyfathrebu'n gyflym ac yn rhwydd, ond o fewn byr-amser gallai'r ohebiaeth ddatblygu'n ymwthiol ac yn anodd i'w rheoli ar broffiliau proffesiynol a phreifat.
- Roedd y polisi'n diffinio gweithredoedd unigolion a oedd wedi gwylltio, yn anodd neu'n cysylltu'n ddi-baid i'r graddau yr oeddent yn creu gofynion afresymol i'r Cyngor neu'n ymddwyn mewn modd annerbyniol tuag at staff y Cyngor.
- Roedd y polisi'n gosod disgwyliadau ac yn rhoi arweiniad ar sut i gyfathrebu â chleientiaid ac opsiynau/datrysiadau ynghyd â phroses benodol i fwrw ymlaen i weithredu/ymateb mewn achosion o dramgwyddo. Nodai'r Polisi'r broses fewnol ar gyfer rheoli'r Polisi ac adolygu'r dull o'i gymhwyso, gan gynnwys arweiniad i Brif Swyddogion.

**Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol**

- Nodai Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol (wedi'i atodi yn Atodiad 2 yr adroddiad) sut roedd y Cyngor yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am wasanaethau a digwyddiadau a oedd o bwys iddynt, a hefyd i rannu a hyrwyddo gwaith y sefydliad. Byddai sianeli'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael eu defnyddio i ofyn am safbwyntiau ac adborth ar destunau penodol, fel ymgyngoriadau.
- Roedd y polisi'n nodi'r hyn y gallai dinasyddion ei ddisgwyl gan y Cyngor wrth ryngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol, a'r modd yr oedd cyfrifon yn cael eu diweddaru a'u monitro.
- Roedd y polisi hefyd yn nodi'r hyn a ddisgwyliai'r Cyngor gan rai a oedd yn rhyngweithio â'r sefydliad drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn gyson â'r Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion ac yn rhoi dehongliad o'r Polisi hwnnw a oedd yn canolbwyntio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd y Polisi arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y Cyngor yn ymdrin yn deg, yn onest, yn gyson ac yn briodol â phob dinesydd, gan gynnwys y rhai yr oedd eu gweithredoedd yn cael eu hystyried yn afresymol. Mae'n rhaid i wasanaethau fod yn hygyrch i bob dinesydd. Fodd bynnag, pe bai dinesydd yn gweithredu mewn modd annerbyniol, byddai'r Polisi'n darparu ar gyfer yr hawl i newid neu gyfyngu ar fynediad y dinesydd i'r Cyngor, ei wasanaethu a'i staff. Rhagwelwyd na fyddai'r polisi hwn yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd (o dan bolisïau blaenorol dim ond nifer fach iawn o gamau fel hyn a gymerwyd) ond byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys ym mhecyn y Cyngor o 'arfau' pe bai angen.

Byddai mesurau diogelu hefyd ar waith ar gyfer y Polisi hwn, fel cael panel o dri swyddog Cyngor i ystyried a ddylid cymhwyso'r Polisi ai peidio, a gofyniad i adolygu unrhyw gam a gymerir o dan y Polisi bob 6 mis o leiaf.

Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio a'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd na fyddai'r Polisi hwn yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o'r cyhoedd a oedd yn rhyngweithio â'r Cyngor. Roedd y rheiny, er y gallent feirniadu neu anghytuno â phenderfyniadau a pholisïau yr oedd y Cyngor yn eu mabwysiadu, yn mynegi hynny mewn ffordd resymol ac yn y pen draw am wella gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â chymryd rhan mewn dadl ddemocrataidd. Roedd hi hefyd yn hanfodol i'r cyhoedd barhau i gadw cyswllt â'r Cyngor ynghylch materion a gwasanaethau allweddol fel gofal cymdeithasol, goleuadau stryd diffygiol a thyllau yn y ffordd er mwyn i'r Cyngor ymateb yn brydlon. Yn hytrach nag atal y cyhoedd rhag cysylltu, pwrpas y Polisi oedd diogelu staff a chynghorwyr rhag lleiafrif bach o bobl a oedd yn mynnu bod y Cyngor yn defnyddio swm annerbyniol ac anghymesur o adnoddau yn ymdrin â chwynion, a phobl a oedd yn ymosodol.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion, Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb cysylltiedig (ynghlwm yn Atodiad 3 yr adroddiad).

(2) Cymeradwyo'r Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion a Pholisi'r Cyfryngau Cymdeithasol yn amodol ar ystyriaeth y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol drwy eu hatgyfeirio i'r pwyllgor hwnnw.

(3) Yn amodol ar Benderfyniadau (1) a (2), y dylai'r Cabinet ar 25 Ebrill 2022 ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol o'r 14 Ebrill 2022 a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r Polisïau yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad yn derfynol. Os na fydd y Pwyllgor Craffu yn gwneud unrhyw sylwadau pellach, y dylid cefnogi a chytuno ar yr adroddiad a'r Polisïau yn Atodiad 1 a 2.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Cabinet i ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

(2) Rhoi cyfle i graffu ar y polisïau ac i'r Cabinet dderbyn sylwadau'r Pwyllgor.

(3) Sicrhau bod Polisi ar waith sy'n adlewyrchu'r gallu sydd gan ddinasyddion i ymgysylltu â'r Cyngor a'r staff mewn modd a allai gael ei dybio'n annerbyniol, a bod Polisi ar waith ar gyfer sut y byddai'r Cyngor yn gweithredu ac yn rhyngweithio drwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn diogelu gwasanaethau Cyngor a'r staff rhag rhyngweithio ymosodol neu ddi-baid, neu lle bo gan ddinasyddion ofynion afresymol.

**C905 STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Fel yr amlinellwyd gan yr Arweinydd, roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chyhoeddi canllawiau drafft Llywodraeth Cymru (LlC).

Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gynnwys trigolion a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth wneud penderfyniadau. Roedd 'Gweithio gyda'n cymunedau, ac er eu budd' yn un o'r pedwar amcan llesiant a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2020-25. Roedd y Cyngor cyn hynny wedi cyhoeddi Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Roedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad at lywodraeth leol. Roedd y Ddeddf yn sefydlu dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan mewn penderfyniadau a gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, cynnal ymgynghoriad ar y strategaeth honno a'i hadolygu'n rheolaidd.

Nodwyd yn y Ddeddf fod yn rhaid i'r strategaeth ymdrin â'r canlynol:

- Hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor
- Hybu ymwybyddiaeth ynghylch sut i fod yn Gynghorydd
- Hwyluso mynediad at benderfyniadau a wnaed, neu y bwriedir eu gwneud
- Hyrwyddo a hwyluso prosesau i bobl leol gyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynghylch penderfyniad

Er mwyn dangos yn glir i ddinasyddion Bro Morgannwg sut roedd y sefydliad yn gweithio i wella cyfranogiad cyhoeddus, ac i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion y Ddeddf, roedd drafft o Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2022-25 wedi cael ei lunio. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol drafft ar Strategaethau Cyfranogiad Cyhoeddus. Roedd drafft y Strategaeth wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu ymatebion i'r ymgynghoriad, canfyddiadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a drafft y canllawiau statudol.

Roedd y Strategaeth bellach yn cael ei chyflwyno gerbron y Cabinet i'w chymeradwyo.

Nododd yr Arweinydd, fodd bynnag, mai'r terfyn amser a ragnodwyd i'r Cyngor gyhoeddi'r Strategaeth oedd ar ôl etholiadau lleol mis Mai. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Cabinet, y bwriad oedd cyhoeddi fersiwn derfynol Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Cyngor Bro Morgannwg fel yr oedd wedi'i hatodi i'r adroddiad, ar y cyfle cyntaf ar ôl y dyddiad hwn.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y prif ddiwygiadau i'r Strategaeth yn dilyn yr ymgynghoriad, ee:

- Mwy o bwyslais ar bwysigrwydd cyfathrebu sut a phryd y gallai pobl ddylanwadu ar benderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â chyfarfodydd y Cyngor.
- Byddai llwybr annigidol bob amser ar gael er mwyn i bobl allu cymryd rhan.
- Sicrhau bod gweithgareddau cyfranogi'n gwbl hygyrch i bob grŵp â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys datblygu eiriolaeth annibynnol ar eu cyfer a datblygu canllawiau gwell ar sut i lunio dogfennau sy'n hygyrch i rai â nodweddion gwarchodedig ac yn haws i randdeiliaid eu deall yn gyffredinol.
- Cam gweithredu ychwanegol i gyfuno holl weithgareddau ymgynghori, ymgysylltu a chyfranogi'r Cyngor mewn un hyb ar-lein y gellir cael mynediad rhwydd iddo, a chyfeiriad at yr amcan hirdymor o ddatblygu porthol a oedd yn cyfuno'r holl lwybrau ar gyfer cyfranogi ym Mro Morgannwg.
- Datblygu templed o gynllun cyfathrebu ar gyfer adroddiadau.
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng lwyfannau cyswllt cwsmeriaid y Cyngor a gweithgareddau cyfranogiad cyhoeddus, fel bo modd casglu ac ymateb i'r holl adborth ad hoc a chwestiynau perthnasol.

Byddai'r strategaeth yn parhau i fod yn ddogfen fyw, weithiol, yn amodol ar y canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol y byddai LlC yn eu darparu, er nad oedd unrhyw raddfa amser wedi'i phennu ar gyfer hyn eto.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD -

(1) Nodi canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, fel y cawsant eu disgrifio yng nghorff yr adroddiad a'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

(2) Nodi'r canllawiau statudol drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022, fel y nodwyd yng nghynnwys yr adroddiad a yn Atodiad B yr adroddiad, a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd ynghlwm yn Atodiad D yr adroddiad.

(3) Y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus diwygiedig (ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad) yn amodol ar gyfeirio'r Strategaeth i sylw'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 14 Ebrill, 2022.

(4) Os oes angen, y dylai'r Cabinet, ar 25 Ebrill, 2022 ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu, ond os na cheir unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor hwnnw, y dylid cymeradwyo a chyhoeddi'r Strategaeth yn unol â'r amserlen a nodir yn yr adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi trosolwg i'r Cabinet o'r safbwyntiau a gafwyd gan ddinasyddion a rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgynghori.

(2) Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am y canllawiau sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru a'r ystyriaethau ychwanegol yn sgil hynny o ran Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y Cyngor.

(3) Galluogi'r Cabinet i ystyried barn y Pwyllgor Craffu cyn cymeradwyo'n derfynol.

(4) Galluogi'r Cyngor i gyhoeddi ei Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus yn unol â'r amserlen a nodir yn y fframwaith deddfwriaethol.

**C906 EHANGU YSGOL Y DERI – DERBYN TENDR (DA/AA) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Roedd yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn tendr cystadleuol ar gyfer gwaith adeiladu newydd ar gyfer Ehangu Ysgol y Deri ar Fferm Cosmeston Isaf.

Ar 15 Gorffennaf 2019, cymeradwyodd y Cabinet Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B a oedd yn cynnwys Ehangu Ysgol y Deri. (Gweler cofnod C39 y Cabinet). Gofynnwyd am dendrau yn ddiweddar drwy ddefnyddio fframwaith contractwyr Ysgolion a Chyllid Cyfalaf De-ddwyrain Cymru (SEWSCAP) o dan Lot 9. Cafodd y rhain wedyn eu gwerthuso gan Gyngor Bro Morgannwg ac AECOM (Ymgynghorwyr Amlddisgyblaethol) yn unol â'r meini prawf a nodwyd yn y dogfennau tendro. Roedd manylion pellach am werthusiad AECOM o'r tendrau wedi'u cynnwys yn adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r adroddiad ac ystyried yr argymhellion yn gysylltiedig ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

(2) Y dylid defnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys a nodir yn adran 14.14 o gyfansoddiad y Cyngor yn gysylltiedig ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniadau

Galluogi ystyried adroddiadau Rhan I a Rhan II gyda'i gilydd.

**C907 CYNNIG I AD-DREFNU DARPARIAETH FEITHRIN YM MHENARTH (DA/AA) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Pwrpas yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, oedd hysbysu'r Cabinet ynghylch canlyniad yr hysbysiad statudol ar gyfer y cynnig i ailgyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth drwy:

- Gynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode drwy:
  - Gostwng oedran ieuengaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser.
  - Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode i gynnwys y 96 o lefydd meithrin rhan-amser; a
  - Dirwyn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin i'w cynnwys o dan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

- Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan drwy:
  - Gostwng oedran ieuengaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser:
  - Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan i gynnwys y 9 o lefydd meithrin rhan-amser; a
  - Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin i'w cynnwys o dan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022

Roedd y cyfnod rhybudd statudol bellach ar fin dod i ben, ac roedd trafodaethau helaeth wedi'u cynnal ar hyn yn y Pwyllgor Craffu, ac ar y ddau achlysur roedd y Pwyllgor wedi cefnogi'r cynigion ar y cyfan. Yn anffodus roedd y drafodaeth wedi bod yn heriol ac yn llawn ffeithiau anghywir a oedd wedi achosi pryder a chynnwrf yn y gymuned leol. Cyfrifoldeb y Cabinet bellach oedd gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y ffeithiau a'r dystiolaeth.

Beth bynnag, roedd hi'n bwysig pwysleisio beth bynnag fo'r penderfyniad a fyddai'n cael ei wneud heddiw, byddai'r ysgolion meithrin / cynradd dan sylw yn parhau i weithredu o'u lleoliadau presennol, fel y nodwyd ym mhob cam o'r broses.

Daeth 111 o wrthwynebiadau i law'r Cyngor erbyn y dyddiad cau, sef 16 Mawrth 2022. Roedd y gwrthwynebiadau wedi'u rhannu i themâu a'u hamlinellu yn yr adroddiad gwrthwynebiadau a oedd wedi'i atodi. Roedd yr adroddiad gwrthwynebiadau wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

Roedd mwyafrif helaeth y gwrthwynebiadau'n seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r ysgolion meithrin a'r staff yn symud i safle arall, ac ni fyddai hynny'n digwydd. Roedd yn rhaid pwysleisio hefyd mai ymgynghoriad statudol oedd hwn yn hytrach na refferendwm, a dyma sut yr oedd y Cyngor yn ymgynghori i weld a oedd y cynnig i weithredu polisi Eiddo Cyngor yn berthnasol mewn gwirionedd yn y sefyllfa hon ai peidio.

Ymdriniodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio hefyd â'r prif wrthwynebiadau / themâu eraill, fel:

- Colli darpariaeth ysgol feithrin bwrpasol. Mantais y cynigion fyddai myfyrio ar arferion gorau yn y sectorau meithrin a chynradd, a rhannu ac elwa ar yr arferion hynny.
- Effaith ailgyflunio ar ansawdd addysg: roedd y rhan fwyaf o adroddiadau Estyn ar gyfer ysgolion cynradd Bro Morgannwg a oedd yn cynnig darpariaeth Feithrin yn cynnwys sgôr da neu ardderchog, ac nid oedd modelau tebyg wedi esgor ar ddeilliannau dysgu gwael i blant a oedd yn mynychu'r mathau hynny o ysgolion.
- Y prif ffactor a oedd yn ysgogi'r cynigion oedd cydraddoldeb a chysondeb ar draws darpariaeth gynradd.
- O ran y farn fod y perthnasoedd cyfredol rhwng yr ysgolion yn briodol, ac na fyddent yn elwa o newid eu strwythur, esboniwyd y byddai cyfleoedd o hyd i gydweithio mwy a symleiddio'r trefniadau cyfathrebu rhwng yr ysgolion a chyda'r rhieni.
- O ran y gwrthwynebiadau ynghylch y ffaith y byddai'r lleoliad yn amhriodol i ddisgyblion meithrin, ac y byddai'n rhy feichus i ddisgyblion meithrin fod mewn lleoliad gyda disgyblion ysgol cynradd, yn rhan o ysgol fwy, ailbwysleisiwyd na fyddai'r un ysgol feithrin yn symud, nac ar yr un safle â'r ysgol gynradd.
- Dim sail resymegol glir dros y cynigion; roedd y sail resymegol ar gyfer y rhain wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.
- O ran annigonolrwydd yr adnoddau i gynnal ansawdd yr addysg, byddai pob ysgol yn derbyn cyllideb unigol, a fyddai'n cynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin, gyda'r mwyafrif o gyllid yr ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr. Byddai'r cynigion yn gwella sefyllfa gyllidebol gyffredinol y ddwy ysgol gynradd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd ei fod wedi bod â diddordeb brwd, fel aelod y ward, yn un o'r ysgolion meithrin dan sylw, ac ar ôl trafod â'r rhieni, y pennaeth a llywodraethwyr yr ysgol, ni allai weld unrhyw risg y byddai'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd dysgu.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth yn dymuno ychwanegu bod llawer o gamwybodaeth wedi codi ynghylch y cynigion, a bod hyn wedi achosi camddealltwriaeth ymhlith y preswylwyr ynghylch yr hyn yr

oedd y cynigion am ei sicrhau mewn gwirionedd. Byddai'r gweithredoedd hyn o uno o gymorth i sicrhau dilyniant gwell i blant a oedd yn symud o addysg feithrin i addysg gynradd.

Ategodd yr Arweinydd y sylwadau uchod, a dywedodd fod cynigion tebyg i uno ysgolion cynradd/meithrin yn rhannau eraill o'r Fro wedi bod yn llwyddiant gan fod tuedd i addysg feithrin a chynradd orgyffwrdd â'i gilydd, a'r ffaith ei bod hi'n haws cynnig addysg fwy 'di-dor' a throsglwyddo'n llyfnach o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd. Yn ogystal â hyn, byddai angen newid Penderfyniad (3) gan nad oedd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol wedi cymeradwyo defnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn adran 14.14 o gyfansoddiad y Cyngor, ac y byddai angen defnyddio'r Pwerau Argyfwng yn lle hynny oherwydd yr anawsterau ymarferol yn gysylltiedig â chynnal cyfarfod Craffu pellach i ystyried y cynigion gyda'r etholiadau lleol ar y gorwel. Roedd angen gwneud y penderfyniad ar y pryd hwnnw hefyd, fel y gellid ei weithredu o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, ac ystyried yr amgylchiadau a amlinellwyd gan yr Arweinydd, mai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu oedd gofyn i'r Prif Weithredwr ddefnyddio'r Pwerau Argyfwng.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiadau ar y cynnig.

(2) Yn amodol ar ystyriaeth o'r uchod, y dylid cymeradwyo gweithredu'r cynnig i ailgyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth drwy:

- Gynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode drwy:
  - Gostwng oedran ieuengaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser.
  - Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode i gynnwys y 96 o lefydd meithrin rhan-amser; a
  - Dirwyn Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin i'w cynnwys o dan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

- Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan drwy:
  - Gostwng oedran ieuengaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser:
  - Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan i gynnwys y 9 o lefydd meithrin rhan-amser; a
  - Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin i'w cynnwys o dan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022

(3) Y dylid gofyn i'r Prif Weithredwr ddefnyddio ei bwerau argyfwng yn gysylltiedig â Phenderfyniad (2) uchod.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Galluogi ystyriaeth ofalus o safbwyntiau gwrthwynebwyr, a'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ochr yn ochr â'r hyn a gynigir, yn rhan o'r broses benderfynu.

(2) Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyhoeddi cynnig statudol drwy hysbysiad statudol ddod i ben, mae angen gwneud penderfyniad, fel sy'n ofynnol o dan adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig i ailgyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth.

(3) Er mwyn sicrhau, os caiff ei gymeradwyo, bod modd gweithredu'r cynnig o fis Medi 2022, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, a fydd yn tarfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar staff, disgyblion a rhieni, ac er mwyn bodloni'r raddfa amser ar gyfer gweithredu.

**C908 RHAGLEN DIGWYDDIADAU ARFAETHEDIG 2022- 2023 (DA/AA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio yr adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ynghylch Rhaglen Ddigwyddiadau 2021-22 ac a ofynnai am gymeradwyaeth ar gyfer Rhaglen Ddigwyddiadau 2022-23.

Oherwydd y cynnydd mewn achosion o COVID-19 ar draws y wlad, ac yn dilyn canllawiau a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, roedd digwyddiadau'r Cyngor a digwyddiadau wedi'u trefnu'n allanol ar dir y Cyngor ym Mro Morgannwg naill ai wedi'u canslo ar gyfer y flwyddyn 2020/21 neu wedi'u gohirio hyd 2021/22. Yn sgil canslo'r digwyddiadau hynny, bu'n rhaid newid ffocws Rhaglen Ddigwyddiadau'r Cyngor ar gyfer 2021/22 i gynnwys agweddau newydd a oedd yn cefnogi economi Canol Trefi'r Fro, yr Arfordir a'r Parciau Gwledig, yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru.

Roedd y rhaglen ddigwyddiadau wedi'i diweddaru a gynhaliwyd yn 2021/22 yn cynnwys digwyddiadau awyr agored ar safleoedd nas defnyddiwyd o'r blaen, wedi'u gwasgaru dros gyfnodau hwy o amser, ee wythnosau / misoedd, ac wedi'u cynnal mewn lleoliadau ar hyd a lled y Fro.

Canolbwyntiwyd yn arbennig ar gynyddu gweithgareddau a digwyddiadau yng nghanol trefi'r Fro, lle'r oedd siopau a busnesau wedi bod drwy gyfnod anodd yn sgil COVID-19, fel y gwelwyd yn y Barri lle'r oedd busnesau a oedd wedi'u hen sefydlu wedi cau'n ddiweddar.

Wrth edrych ymlaen, roedd angen i'r Cyngor gofio bod COVID-19 yn dal yn bresennol, a bod angen bod yn ofalus wrth drefnu digwyddiadau a gweithgareddau yn y dyfodol. Byddai hyn yn golygu parhau i gynnal digwyddiadau yn yr awyr agored ar arfordiroedd ac ym mharciau gwledig y Fro, ond cynnwys canol trefi hefyd.

Byddai angen defnyddio pwerau dirprwyedig a'r weithdrefn penderfyniadau brys i newid digwyddiadau yn sgil COVID-19, ac er mwyn paratoi a datblygu'r digwyddiadau perthnasol mewn modd amserol.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd ei bod yn bwysig i'r Cyngor wneud popeth o fewn ei allu i hyrwyddo dulliau newydd arloesol o ennyn diddordeb pobl ac o ledaenu'r digwyddiadau hynny mor eang ac y gallai ledled y sir.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r digwyddiadau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn 2022 - 2023 (ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad), yn amodol ar y ddeddfwriaeth a fydd y gyfredol ar y pryd.

(2) Dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, i weithredu newidiadau i'r rhaglen ddigwyddiadau, er mwyn ymateb i'r amgylchedd newidiol a gaiff ei lywio gan COVID-19 yn y misoedd nesaf.

(3) Y dylid defnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y nodir yn adran 14.14 o gyfansoddiad y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Cyngor baratoi a datblygu'r digwyddiadau cysylltiedig.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cymeradwyo rhaglen ddigwyddiadau arfaethedig 2022-2023.

(2) Lle bo modd, cefnogi digwyddiadau ym Mro Morgannwg drwy newid ffocws y rhaglen ddigwyddiadau yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r achosion o COVID 19, ac wrth i ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

(3) Caniatáu amser priodol i baratoi a datblygu'r digwyddiadau cysylltiedig.

**C909 AILGOMISIYNU GWASANAETH EIRIOLAETH PROFFESIYNOL ANNIBYNNOL I BLANT A PHOBL IFANC (GCI) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -**

Roedd yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnal ymarfer ail-gomisiynu ac ymrwymo i gontract ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc. Roedd Cyngor Bro Morgannwg, ar y cyd â Chyngor Caerdydd, wedi dyfarnu contract ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth

annibynnol proffesiynol i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) yn 2017 am gyfnod o 5 mlynedd. Byddai'r contract hwn yn dod i ben ar 30ain Medi, 2022. Gan hynny, roedd angen gwneud penderfyniad fel bo modd cynnal ymarfer caffael mewn pryd i ddyfarnu contract newydd erbyn mis Gorffennaf 2022.

Aeth yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ei flaen i ddweud bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol proffesiynol yn hanfodol ac yn helpu i roi llais i bobl ifanc, yn ogystal â chanfod atebion i'r problemau y gallent fod yn eu wynebu. Roedd rhai o ddeilliannau Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) wedi bod eithriadol o gadarnhaol yn sgil y gwaith a wnaed drwy eiriolaeth annibynnol.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd (ar ôl cwblhau'r broses dendro) i ddyfarnu'r contract(au) ar gyfer y gwasanaeth am gyfnod cychwynnol 4 blynedd gyda dewis i ymestyn am hyd at 2 flynedd arall.

(2) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am awdurdod y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu contract(au) â'r cynigydd/cynigwyr llwyddiannus.

(3) Cymeradwyo y dylai'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ddatblygu ac ymrwymo i drefniant partneriaeth â Chyngor Caerdydd yn gysylltiedig â'r prosesau comisiynu ar gyfer y Gwasanaeth.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag Eiriolaeth o dan Ran 10 a rhannau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn ffordd gost-effeithiol sy'n bodloni anghenion plant a phobl ifanc.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn rhoi awdurdod i'r swyddogion perthnasol fwrw ymlaen i sefydlu contract(au) â'r cynigydd/cynigwyr llwyddiannus.

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion ei Weithdrefnau Ariannol a'i Reolau Sefydlog ar gyfer Contractau.

**C910 GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) – CYNIGION AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG (GCI) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -**

Roedd yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, yn gofyn am gytundeb i argymell bod y Cyngor yn newid trefniadau presennol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn perthynas â gwiriadau DBS ar gyfer rhai Aelodau etholedig, er mwyn sicrhau eglurder o ran yr hyn a ddisgwylir gan Aelodau etholedig ym Mro Morgannwg, gan adeiladu ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol ar y pryd wrth i Aelodau etholedig newydd gyrraedd yn dilyn yr etholiadau lleol. Nid oedd canllawiau DBS ar gyfer llywodraethwyr ysgol a Chynghorwyr etholedig yng Nghymru yn rhoi rhyw lawer o gyfarwyddyd i Gynghorau o ran y gofynion i aelodau Etholedig dderbyn gwiriadau DBS.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd pa mor bwysig oedd hi i Aelodau etholedig dderbyn gwiriadau DBS er mwyn i'r cyhoedd gael lefel o hyder yn y rhai a oedd yn cael eu hethol i'w cynrychioli, yn enwedig lle bo Aelod etholedig yn dod i gysylltiad agos a rhai sy'n agored i niwed yn rhinwedd ei rôl.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd hefyd am gael ychwanegu penderfyniad arall, fel bo modd dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd weithredu'r cynigion hyn. Nododd mai cydweithwyr yn yr Adran Adnoddau Dynol fyddai'n bwrw ymlaen â'r cynigion hyn, ond y byddai'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cysylltu â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol i sicrhau bod y gwiriadau priodol yn cael eu cynnal. Cytunodd yr Arweinydd a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd â hyn.

Dymunai'r Arweinydd hefyd ychwanegu y byddai gwiriadau DBS a chodi ymwybyddiaeth yr Aelodau ynghylch materion diogelu yn eu helpu mewn sefyllfaoedd lle byddent yn cynnal cymorthfeydd neu'n ymweld ag etholwyr ar eu pen eu hunain, a lle gallent felly fod mewn sefyllfa fregus.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylai fod yn ofynnol i Aelodau etholedig y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol, Cartrefi a Chymunedau Diogel a Dysgu a Diwylliant, ac Aelodau a oedd yn derbyn Cyflog Uwch wneud cais am wiriad DBS manwl.

(2) Y dylai'r holl Aelodau etholedig dderbyn gwiriad DBS sylfaenol ar ôl derbyn eu swydd.

(3) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu Penderfyniadau (1) a (2).

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod Aelodau etholedig y Cabinet, y pwyllgorau Craffu y cyfeiriwyd atynt, a’r Aelodau etholedig hynny sydd â rolau perthnasol yn derbyn gwiriad DBS manwl.

(2) Sicrhau bod pob Aelod etholedig yn destun datgeliad DBS sylfaenol i sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder yn eu Haelodau etholedig.

(3) Sicrhau bod Penderfyniadau (1) a (2) yn cael eu gweithredu.

**C911 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C912 EHANGU YSGOL Y DERI – DERBYN TENDR (D TENDER (DL/ER) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) –**

Pwrpas yr adroddiad oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn tendr cystadleuol ar gyfer y gwaith adeiladu newydd ar gyfer Ehangu Ysgol Y Deri yn Fferm Cosmeston Isaf.

Ar 15 Gorffennaf 2019, cymeradwyodd y Cabinet Raglen ysgolion yr 21ain Ganrif Band B a oedd yn cynnwys cynllun i Ehangu Ysgol y Deri. (Gweler cofnod C39 y Cabinet).

Gofynnwyd am dendrau yn ddiweddar drwy ddefnyddio fframwaith contractwyr Ysgolion a Chyllid Cyfalaf De-ddwyrain Cymru (SEWSCAP) o dan Lot 9. Roedd pum tendr wedi dod i law ac wedi cael eu hagor ar 22 Hydref 2021. Aeth Cyngor Bro Morgannwg ac AECOM (Ymgynghorwyr Amlddisgyblaethol) wedyn ati i werthuso'r rhain, ar sail y meini prawf a nodwyd yn nogfennau'r tendr. Argymhellwyd y dylid derbyn y tendr gan ISG Construction Ltd.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig,

PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo dewis ISG Construction Ltd i ddarparu gwasanaethau caffael a dylunio cyn adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol y deri, ar dir Fferm Cosmeston Isaf.

(2) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gwblhau'r Contract Gwasanaethau Proffesiynol ag ISG Construction Ltd ar gyfer gwasanaethau caffael a dylunio cyn adeiladu.

(3) Y dylai'r Cabinet dderbyn adroddiad pellach pan fyddai cost lawn y gwaith wedi'i phennu, er mwyn ymrwymo i Gontract NEC4 Opsiwn A (Cyfandaliad gydag Amserlen Weithgareddau).

(4) Y dylid defnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y nodir yn adran 14.14 o gyfansoddiad y Cyngor, i drefnu gwasanaethau caffael a dylunio cyn adeiladu ar gyfer y gwaith adeiladu newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol y Deri ar dir Fferm Cosmeston Isaf.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y gwaith angenrheidiol yn cael ei gwblhau ar gyfer adeilad newydd Ysgol y Deri.

(2) Caniatáu gweithredu contractau ffurfiol rhwng y Cyngor ac ISG Construction Ltd.

(3) Er mwyn sicrhau bod cost lawn y cynllun yn cael ei phennu cyn ymrwymo i Gontract Opsiwn A NEC4 (Cyfandaliad gydag Amserlen Weithgareddau).

(4) Trefnu gwasanaethau caffael a dylunio cyn adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol y Deri ar dir Fferm Cosmeston Isaf.